Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Croesyceiliog
# Heol Woodland
# Cwmbrân
# Torfaen
# NP44 2YB

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun 11 i 18 wedi'i lleoli yng Nghwmbrân yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yw Ysgol Croesyceiliog. Mae 1,561 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd, sy'n cynnwys 260 yn y chweched dosbarth. Daw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr o Groesyceiliog, Llanyrafon, Maendy a Phontnewydd, ardaloedd tref Cwmbrân. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o'r tu allan i'r dalgylch yn gwneud cais i fynychu ac yn teithio cryn bellter i'r ysgol.

Yn y flwyddyn academaidd bresennol, mae gan 13.5% o ddysgwyr hawl i brydau ysgol am ddim, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 17.1% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae cyfanswm o 15% o ddysgwyr ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol. Mae'r ffigur hwn islaw'r ffigur cenedlaethol, sef 16.9% ar gyfer ysgolion uwchradd. Canran y dysgwyr sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yw 1%, o'i gymharu â 2.7% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae tua 5% o ddysgwyr yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol neu hil gymysg. Mae tua 1% o ddysgwyr o gartrefi Cymraeg, neu'n siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfwerth.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er Medi 2009. Ers hynny, mae'r ysgol wedi penodi un dirprwy bennaeth newydd ac mae wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Arwyddair yr ysgol yw 'Dysgu, Goddefgarwch, Uchelgais'. Ei nod yw:

- cefnogi a herio pobl ifanc i ddod yn ddysgwyr annibynnol;
- creu ymdeimlad o gymuned fel bod pob aelod o'r ysgol yn teimlo y caiff ei werthfawrogi a'i gefnogi; a
- darparu amgylchedd y gall pob aelod o gymuned yr ysgol ffynnu ynddo ac arddel gwerthoedd dysgu, goddefgarwch ac uchelgais.

Y gyllideb ysgol unigol fesul dysgwr ar gyfer Ysgol Croesyceiliog yn 2010-2011 yw £3,701, sy'n cymharu ag uchafswm o £4,454 ac isafswm o £3,701 ar gyfer ysgolion uwchradd yn Nhorfaen. Yr ysgol sydd a'r gyllideb isaf fesul dysgwr o'r saith ysgol uwchradd yn Nhorfaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae gwaith yr ysgol yn cynnwys llawer o nodweddion da, sef:

- cyrhaeddiad dysgwyr ym mwyafrif y dangosyddion perfformiad;
- ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau;
- y cynnydd da a wna'r rhan fwyaf o ddysgwyr ym mwyafrif y gwersi;
- cwricwlwm eang a chytbwys sy'n galluogi dysgwyr i gael ystod dda o brofiadau dysgu ac ennill cymwysterau perthnasol;
- addysgu cynlluniedig ac effeithiol ym mwyafrif helaeth y gwersi; a
- lefel uchel y gofal a'r cymorth sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddeilliannau a lles dysgwyr ac at ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol ar y cyfan, oherwydd:

- nad yw perfformiad mewn rhai dangosyddion allweddol, gan gynnwys y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3, wedi dangos gwelliant cynaliadwy;
- bod tanberfformio cymharol wedi bod mewn gwyddoniaeth, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- bod gwahaniaethau rhwng perfformiadau bechgyn a merched mewn sawl dangosydd yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 gryn dipyn yn fwy na chyfartaleddau Cymru a chyfartaleddau teuluol;
- bod presenoldeb wedi bod yn ddigonol o'i gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg; ac
- nid yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd mewn lleiafrif o wersi lle nad yw'r addysgu yn eu herio'n llawn.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- y cyfeiriad strategol clir a thargedig i waith yr ysgol;
- y systemau a'r strwythurau rheoli effeithiol;
- y trefniadau hunanarfarnu systematig a chynhwysfawr;
- bod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol yn cael eu nodi mewn modd realistig a chywir;
- bod amcanion gwella clir a phriodol sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau manwl; a
- bod partneriaethau sefydledig sy'n cyfrannu'n dda at wella deilliannau a lles dysgwyr.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Croesyceiliog:

A1 gymryd camau i godi safonau mewn gwyddoniaeth a meysydd eraill lle mae tanberfformio cymharol;

A2 datblygu dull mwy cydlynus ar gyfer gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr a nodwyd, gan gynnwys bechgyn;

A3 parhau i ddatblygu strategaethau i wella presenoldeb;

A4 hyrwyddo datblygiad medrau dysgwyr yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm; a

A5 gwella ansawdd yr addysgu i ennyn diddordeb pob disgybl a chynyddu lefel yr her ar eu cyfer.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos y modd y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd cynnydd wrth fynd i’r afael â’r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 3, roedd canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) yn 2010 ychydig islaw cyfartaleddau cenedlaethol a theuluol. Yn y pedair blynedd diwethaf, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghyfran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd hwn.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 yn cyflawni'n dda mewn Saesneg a mathemateg. Roedd canrannau'r dysgwyr sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg a mathemateg uwchlaw cyfartaleddau teuluol yn 2010. Mewn Saesneg, mae'r canran hwn wedi bod yn gyson uwchlaw'r cyfartaleddau teuluol dros y pedair blynedd diwethaf. Disgynnodd canran y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth yn gyflym yn 2010 ac roedd islaw'r cyfartaledd teuluol am y tro cyntaf mewn tair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi cyd-fynd yn fras â chyfartaleddau teuluol dros y tair blynedd diwethaf. Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 1 wedi bod yn gyson uwchlaw cyfartaleddau teuluol. Mae'r sgôr pwyntiau ehangach (sy'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol pan fo dysgwyr yn 16 oed) a chanran y dysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 2 wedi bod islaw'r cyfartaleddau teuluol am y tair blynedd diwethaf.

O'i chymharu ag ysgolion tebyg ar sail canran y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi bod uwchlaw'r canolrif ar gyfer canran y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 2 mewn Saesneg a mathemateg ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Mewn gwyddoniaeth, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 2 wedi bod islaw'r canolrif ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Mae canran y dysgwyr ôl-16 sy'n cyflawni trothwy lefel 3 wedi cyd-fynd yn fras â'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2010, disgynnodd y canran hwn yn sylweddol ac roedd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyrhaeddiad ar y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi gwella ar gyfradd arafach na'r gyfradd genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd islaw cyfartaledd Cymru yn 2010.

Yn 2010, roedd y gwahaniaeth rhwng canran y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 a throthwy lefel 2 a throthwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 yn fwy na'r cyfartaleddau cenedlaethol a theuluol.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad y

disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaleddau teuluol. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi disgyn ar gyfradd gyflymach na'r canran ar gyfer dysgwyr eraill.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, ni adawodd unrhyw ddysgwyr yr ysgol heb gymhwyster. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, arhosodd tua 78% o ddysgwyr mewn addysg amser llawn. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaleddau lleol ond islaw cyfartaleddau cenedlaethol. Mae cyfran y dysgwyr Blwyddyn 11 a adawodd yr ysgol yn haf 2010 nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn well na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae tua 63% yn mynd ymlaen i addysg uwch ar ôl y chweched dosbarth.

Ym mwyafrif y gwersi, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth yn dda, er enghraifft i ddatrys problemau neu werthfawrogi cysyniadau newydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw dysgwyr yn caffael dealltwriaeth ddigon cadarn o destunau newydd neu'n datblygu eu medrau yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwrando'n astud, ond yw rhai ohonynt yn gwrando'n ddigon gofalus ar esboniadau athrawon neu farn dysgwyr eraill. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cyfraniadau meddylgar ac adeiladol at drafodaethau grŵp neu ddosbarth. Mae dysgwyr mwy abl yn mynegi eu barn yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dyfynnu ac yn dehongli gwybodaeth yn effeithiol o destunau. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion, ac mae dysgwyr mwy abl yn llunio dadansoddiadau gwybodus a rhesymegol. Mae lleiafrif o ddysgwyr o bob gallu yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol sylfaenol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael cymorth dal i fyny targedig mewn llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig, mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf ac mae wedi bod yn gyson uwchlaw cyfartaleddau teuluol a Chymru.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, cyflawnodd mwyafrif y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 lefel 2 yn y cwrs llawn ar gyfer Cymraeg ail iaith. O'i chymharu ag ysgolion mewn ardaloedd tebyg, mae hyn yn berfformiad da. Fodd bynnag, ni wnaeth tua hanner y dysgwyr y cynnydd disgwyliedig ar sail perfformiad cynharach yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan leiafrif o'r dysgwyr presennol yng nghyfnod allweddol 4 agweddau negyddol at ddysgu Cymraeg ac maent yn gwneud cynnydd araf iawn.

Mae nifer dda wedi mynd ati i ddilyn cwrs Cymraeg Safon Uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn yr ysgol. Mae'r mwyafrif wedi'u cymell yn dda ac yn ymddwyn yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw rhai dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn ac maent yn amharu ar ddysgu dysgwyr eraill. Mae ychydig iawn o achosion o fwlio. Mae perthnasoedd gweithio cadarn ac ethos o ymddiriedaeth yn bodoli rhwng dysgwyr a staff.

Mae presenoldeb wedi bod yn ddigonol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n gwella'n gyson o ganlyniad i ystod o strategaethau. Mae'r dysgwyr a nodwyd wedi elwa ar gymorth targedig i wella hunan-barch, gwella rheoli dicter a mynd i'r afael â phroblemau presenoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall ystyr bod yn iach. Maent yn dewis opsiynau iach yn ffreutur yr ysgol ac maent yn weithgar yn gorfforol o fewn y cwricwlwm, a'r tu allan.

Ymgynghorir yn dda â dysgwyr ar draws yr ysgol ar faterion yn ymwneud â llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Cânt gyfleoedd da i ddylanwadu ar waith yr ysgol.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'n dda. Mae dysgwyr wedi elwa ar gymryd rhan mewn ystod o brosiectau cymunedol a digwyddiadau codi arian ar gyfer elusennau. Mae grŵp Tenovus, sy'n codi arian ac yn darparu cymorth cyfoedion ar gyfer dysgwyr y mae canser wedi effeithio arnynt, yn fenter arbennig o dda. Mae llawer o fyfyrwyr hŷn yn gwirfoddoli fel cyfeillion darllen ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8 neu fel tiwtoriaid ar raglen yr ysgol ar gyfer dal i fyny â darllen. Mae rhai ohonynt yn hyfforddi fel arweinwyr chwaraeon ac mae myfyrwyr eraill yn rhoi cymorth buddiol i grwpiau tiwtor ar draws yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae'n galluogi dysgwyr i gael ystod dda o brofiadau dysgu ac ennill cymwysterau perthnasol. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda ar brofiadau dysgu cyfnod allweddol 2 mewn ysgolion cynradd clwstwr.

Mae'r ysgol yn bodloni anghenion dysgwyr cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 yn dda. Trwy gydweithio â darparwyr eraill, mae'n cynnig ystod dda o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd. Mae'r ysgol yn bodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae cysylltiadau â chyflogwyr lleol yn rhoi cyfle da i ddysgwyr fanteisio ar brofiadau â ffocws gwaith.

Mae cwricwlwm â hyblygrwydd priodol ar gyfer grŵp bach o ddysgwyr sy'n agored i niwed yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn yn helpu gwella presenoldeb y dysgwyr hyn. Mae cyrsiau achrededig ychwanegol yn ymestyn dysgu'r dysgwyr mwy abl a dawnus yn llwyddiannus.

Mae Bagloriaeth Cymru wedi cyfoethogi ac ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer pob dysgwr ôl-16, gan ymestyn y cyfleoedd i ddysgwyr wella eu medrau.

Mae'r cyfleoedd i ddysgwyr yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn gyfyngedig mewn lleiafrif o bynciau.

Mae'r amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol y mae nifer dda o ddysgwyr yn eu mynychu yn cyfrannu'n sylweddol at gynnydd dysgwyr ac at ddatblygiad eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn dda, ac mae pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn naill ai'r cwrs TGAU llawn neu'r cwrs TGAU byr. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n dda at wybodaeth a dealltwriaeth ehangach dysgwyr o Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o Gymraeg achlysurol ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu digon.

Megis dechrau cael eu datblygu y mae mentrau i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, er bod yr Eco bwyllgor yn darparu sbardun defnyddiol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n gynyddol at ymwybyddiaeth dysgwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy weithio mewn sawl pwnc ac fel rhan o'u rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

**Addysgu: Digonol**

Mae mwyafrif y gwersi yn cynnwys amcanion dysgu clir. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau, sy'n herio'r dysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb, ac yn helpu iddynt wneud cynnydd da. Mae parch ar y ddwy ochr rhwng athrawon a disgyblion, a gwneir defnydd da o ganmoliaeth ac anogaeth. Mae llawer o wersi yn cynnwys gweithgareddau dechreuol diddorol a sesiynau llawn effeithiol.

Mewn rhai gwersi, lle mae'r addysgu yn arbennig o effeithiol, caiff dysgwyr gyfleoedd da iawn i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, meddwl a datrys problemau. Bodlonir anghenion dysgwyr yn arbennig o dda ac maent yn gwneud cynnydd da iawn.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffyg cyflymder a her yn golygu nad yw dysgwyr yn gwneud cynnydd digonol. Nid yw pob un ohonynt yn ymddiddori yn eu dysgu ac mae hyn yn arwain at aflonyddwch achlysurol ar lefel isel. Yn y gwersi hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr weithio'n annibynnol a datblygu eu medrau datrys problemau.

Mae athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r sylwadau yn llawn gwybodaeth ac yn cynnig awgrymiadau defnyddiol i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio'n sylweddol. Nid yw lleiafrif o athrawon yn rhoi digon o arweiniad ar sut i wella. Nid oes digon o waith dilynol bob amser i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud nodyn o'r sylwadau a gwella eu gwaith.

Mae ffocws cynyddol ar ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwybod eu targedau penodol ac yn deall beth mae angen iddynt ei wneud i'w cyflawni. Mewn rhai adrannau, mae asesu cymheiriaid a hunanasesu yn datblygu'n dda.

Mae arweinwyr pwnc yn gwneud defnydd da o ddata cynnydd i nodi tangyflawni yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. O ganlyniad, caiff strategaethau ymyrraeth priodol eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr unigol.

Mae’r adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth. Maent yn nodi cryfderau ac yn dangos beth mae angen i ddysgwyr wneud i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn cefnogi ac yn gofalu am ddysgwyr yn dda. Mae’r ddarpariaeth yn dda ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, ac ar gyfer cefnogi iechyd a lles dysgwyr. Mae trefniadau effeithiol sy’n helpu dysgwyr Blwyddyn 7 i ymgynefino’n dda. Mae’r ysgol yn nodi anghenion dysgwyr pan fyddant yn ymuno ac yn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni’n briodol.

Mae cymorth targedig ar gyfer grwpiau bach penodol o ddysgwyr ar draws yr ysgol wedi arwain at welliant sylweddol yn eu medrau darllen a rhifedd. Mae’r ymyriadau hyn hefyd wedi arwain at hyder, presenoldeb ac ymddygiad gwell. Mae’r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella’r cyfle a gaiff lleiafrif o ddysgwyr i elwa ar y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac mae’n ymateb yn effeithiol i bryderon ynghylch lles dysgwyr. Mae’n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr yn llwyddiannus ac yn ymgysylltu’n dda ag ystod eang o asiantaethau allanol. Mae gwasanaethau’n cynnig cyfleoedd defnyddiol i fyfyrio.

Caiff rhieni a dysgwyr gyngor manwl a chymorth buddiol, er enghraifft wrth wneud dewisiadau ar gyfer ystyried gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae cymorth da gan anogwr dysgu ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gymorth priodol ac maent yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn cael y cymorth penodol sydd ei angen arnynt i’w helpu i wneud cynnydd mewn lleiafrif o’u gwersi. Mae’r broses adolygu flynyddol ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni gofynion statudol ac mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol, mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol, i fodloni anghenion y dysgwyr hyn. Caiff rhieni’r dysgwyr hyn eu hysbysu’n dda a’u hannog i gymryd rhan yn llawn yn addysg eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar gydag ethos o barch a goddefgarwch ar y ddwy ochr. Mae’n rhoi pwyslais penodol ar helpu pobl eraill, er enghraifft trwy godi arian ar gyfer elusennau. Ym mhob agwedd ar ei gwaith, mae’r ysgol yn cydnabod ac yn parchu amrywiaeth ac yn mynd i’r afael ag anghenion dysgwyr yn briodol. Mae’n cynnig hawl gyfartal i ddysgwyr elwa ar bob maes o’r cwricwlwm ac mae’n annog dysgwyr i herio stereoteipiau yn eu disgwyliadau, eu cyflawniadau a’u dewisiadau pwnc. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i addasu’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anableddau, o fewn cyfyngiadau ymarferol y safle.

Mae gwneuthuriad llawer o'r adeiladau ar y safle yn ddigonol.  Fodd bynnag, caiff yr adeiladau eu cynnal yn dda a buddsoddwyd yn sylweddol mewn darparu adeiladau newydd, fel y cyfleusterau cerdd a'r ystafell ffitrwydd ac mewn gwella'r amgylchedd cyffredinol.  Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar sy'n aml yn ysgogol sy'n cael ei wella gan lawer o arddangosiadau o ansawdd uchel.  Mae'r cyfleusterau tu allan ar gyfer addysg gorfforol yn arbennig o dda.  Mae'r adnoddau dysgu ar draws yr ysgol yn briodol i fodloni anghenion dysgwyr.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, yn rhoi cyfeiriad strategaeth clir ac effeithiol i waith yr ysgol a'i datblygiad yn y dyfodol.  Mae wedi ailstrwythuro rolau'r uwch dîm arweinyddiaeth i roi ffocws gwell ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.  Mae'r dull hwn wedi cynnwys ailddosbarthu a dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol yn ehangach.

Mae uwch arweinwyr yn effeithiol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau ac maent yn rhoi cymorth da i staff eraill.  Maent yn monitro pob agwedd ar waith yr ysgol yn ofalus ac yn cyfrannu'n effeithiol at sefydlu diwylliant dysgu cryf.  Mae diwrnodau 'cerdded o gwmpas', lle mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn mynd o gwmpas yr adeiladau ac yn galw heibio mewn dosbarthiadau, yn ddefnyddiol iawn.  Mae'r trefniadau hyn yn galluogi uwch arweinwyr i roi cymorth gwerthfawr i staff ac i nodi materion y gallai fod angen sylw â mwy o ffocws arnynt.  Er bod y trefniadau a'r disgwyliadau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol, mae'n rhy gynnar i'r effaith fod yn amlwg ym mhob un o'r deilliannau perfformiad.

Mae gan lawer o reolwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau ac maent yn eu cyflawni'n dda.  Nid yw rhai rheolwyr wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn eu meysydd.

Mae'r systemau a'r strwythurau rheoli yn effeithiol.  Mae cyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar fusnes craidd ac yn sicrhau bod trafodaethau helaeth am flaenoriaethau.  Mae uwch staff yn cyfleu eu disgwyliadau, er enghraifft am bolisïau a gweithdrefnau, yn glir.  Mae rheolwyr canol yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd bob hanner tymor gyda'u rheolwr cyswllt yn yr uwch dîm arweinyddiaeth.  Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd, tra'n darparu'r cymorth a'r her angenrheidiol i nodi a chyflawni targedau cytûn.

Mae strwythur pwyllgor y corff llywodraethol wedi'i drefnu'n dda ac mae llywodraethwyr yn wybodus iawn am berfformiad yr ysgol.  Mae ganddynt amgyffrediad da o ystod o ddata perfformiad.  Maent yn gweithio'n dda gyda'r pennaeth i gytuno ar strategaethau datblygu a monitro cynnydd yr ysgol tuag at ei thargedau.  Mae llywodraethwyr yn effeithiol yn eu rolau fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel Llwybrau Dysgu, byw yn iach ac ymestyn gwaith partneriaeth gydag ysgolion cynradd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan annatod o fywyd gwaith yr ysgol. Mae'r systemau yn drylwyr ac mae arfarniadau yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys nifer fawr o arsylwadau gwersi gan uwch reolwyr, er enghraifft fel rhan o adolygiadau neu drefniadau rheoli perfformiad adrannol. Mae sawl adran wedi llunio adroddiadau defnyddiol yn seiliedig ar ganfyddiadau arsylwadau cymheiriaid.

Mae trefniadau hunanarfarnu yn rhoi pwyslais sylweddol ar graffu ar waith dysgwyr a safbwyntiau dysgwyr a rhieni. Mae rheolwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd cynyddol ac effeithiol o ddata er mwyn nodi cryfderau a diffygion, ac maent yn gosod targedau ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn, ac mae rheolwyr canol yn fwyfwy ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i effaith y trefniadau hyn fod yn amlwg ym mhob dangosydd perfformiad.

Mae llawer o hunanarfarniadau adrannol blynyddol yn gynhwysfawr. Mae eu hansawdd yn dda ar y cyfan, ond mewn lleiafrif o achosion, nid ydynt yn cydnabod diffygion yn llawn, er enghraifft yn ansawdd yr addysgu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddogfen fanwl a realistig. Mae'n nodi'r rhan fwyaf o feysydd y mae angen eu gwella, ond nid yw'n cydnabod rhai materion a nodwyd yn yr arolygiad presennol.

Mae'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio datblygiad wedi hen ennill ei blwyf. Mae'r cynlluniau gwella adrannol a bugeiliol a'r cynllun gwella ysgol yn deillio'n briodol o ganfyddiadau hunanarfarnu. Mae'r cynllun gwella ysgol yn offeryn effeithiol ac yn amlinellu blaenoriaethau clir a phriodol. Mae cynlluniau adran yn darparu sylfaen dda ar gyfer gweithredu, gyda thargedau a meini prawf llwyddo heriol.

Mae grwpiau o athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ysgogi mentrau penodol. Mae'r Grŵp Dysgu, er enghraifft wedi gweithio'n effeithiol ar ystod o brosiectau i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae grŵp arall o athrawon wedi datblygu llawlyfr ystafell ddosbarth i hyrwyddo arfer orau. Mae rhai athrawon hefyd yn cyfrannu at gymunedau dysgu penodol wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol sydd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth ganol a dulliau addysgu arloesol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau, sefydliadau a darparwyr eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n dda at wella profiadau dysgu ac at ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer dysgwyr.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag ysgolion cynradd partner i alluogi dysgwyr i drosglwyddo'n ddidrafferth o Flwyddyn 6 ac ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7. Nodwedd gref ar y trefniadau trosglwyddo yw'r defnydd arloesol o fideo gynadledda i gysylltu dysgwyr ym Mlwyddyn 7 â dysgwyr ym Mlwyddyn 6. Mae hyn yn galluogi dysgwyr ym Mlwyddyn 6 i weld yr ysgol a holi cwestiynau gwybodus i gyfoedion cyn gwneud ymweliadau ffurfiol.

Mae ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ar lefelau 1 a 2 ar gael i ddysgwyr rhwng 14 ac 19 oed trwy ymglymiad gweithredol yr ysgol yn y rhwydwaith 14-19. Caiff y ddarpariaeth ei mapio’n dda ar draws nifer o sefydliadau i sicrhau bod cyrsiau’n cael eu cynnig mewn lleoliadau addas. Mae’r ysgol wedi addasu amserlenni’n briodol i wneud y defnydd gorau o’r amser sydd ar gael ac i ddarparu cyrsiau ychwanegol cost effeithiol.

Mae’r ysgol yn cymryd camau addas i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd darpariaeth y bartneriaeth o fewn y rhwydwaith 14-19. Mae’n gweithio’n dda gyda darparwyr eraill i wella deilliannau a lles dysgwyr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gweithdrefnau wedi’u cynllunio’n dda i gynllunio ar gyfer datblygu yn y dyfodol ac i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu’n briodol yn unol â blaenoriaethau a nodwyd yn glir. Mae’r ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol i ansawdd yr adeiladau a’r adnoddau. Mae gweithdrefnau da i leihau gwastraff wrth ddefnyddio adnoddau. Mae uwch arweinwyr wedi bod yn weithgar yn sicrhau cyllid ychwanegol i gyflwyno cyrsiau newydd tra bo trefniadau cydweithredol wedi helpu ymestyn dewisiadau’r cwricwlwm a gwella effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu sy’n cael eu defnyddio’n briodol. Mae uwch reolwyr yn nodi anghenion datblygiad proffesiynol athrawon trwy drefniadau rheoli perfformiad ac adolygiadau adrannol. Trefnir hyfforddiant mewn swydd yn systematig ac yn economaidd, trwy gynyddu’r pwyslais ar gymorth cymheiriaid, i adlewyrchu blaenoriaethau ysgol gyfan a blaenoriaethau adrannau.

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda. Fodd bynnag, gan fod y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn ddigonol ac nid oes patrwm cyson o welliant wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian ar y cyfan.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron rhieni**

Cafodd Estyn 35 o ymatebion i'r holiadur rhieni, sy'n cynrychioli cyfran gymharol fach o gyfanswm nifer y rhieni. O'r rhai a ymatebodd, ymatebodd llawer o rieni yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn i lawer o gwestiynau.

Mae llawer o rieni yn fodlon â'r ysgol. Maent yn datgan ei bod yn cael ei rhedeg yn dda a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn ei hoffi. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn nodi bod eu plant wedi cael cymorth i ymgynefino'n dda pan wnaethant ddechrau yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn ystyried bod ystod dda iawn o weithgareddau allgyrsiol a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Maent yn teimlo'n gyfforddus iawn ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent yn ystyried bod disgwyliadau staff yn dda a bod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu. Dywed llawer ohonynt fod yr addysgu yn dda a bod staff yn cefnogi eu plant yn dda. Maent yn teimlo bod eu plant wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu'r coleg.

Mae mwyafrif helaeth y rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant ac maent yn credu bod y staff yn trin pob plentyn yn deg, gan ddangos parch atynt. Fodd bynnag, mae lleiafrif sylweddol yn mynegi pryderon am ymddygiad y dysgwyr.

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 395 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap o'r ystod oedran i gyd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn nodi bod ganddynt rywun i droi ato/ati os oes ganddynt unrhyw bryderon ac maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn credu eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn helpu iddynt ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae llawer ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer ac mae'r mwyafrif helaeth yn credu bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth.

Mae llawer o ddysgwyr yn datgan bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cadarnhau bod yr ysgol yn helpu iddynt ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Dywed llawer ohonynt fod y staff yn eu trin yn deg,

a’u bod yn dangos parch atynt.  Mae tua hanner y dysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i’w safbwyntiau, er bod dysgwyr ôl-16 yn teimlo nad yw’n ymgynghori â nhw cystal.

Mae tua hanner y dysgwyr, a mwyafrif y dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3, yn mynegi pryderon am ymddygiad.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| John Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Steffan James | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees | Arolygydd Tîm |
| Janet Waldron | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Edward Tipper | Arolygydd Lleyg |
| Liz York | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tyrone Davies | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad ar gael gan yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost yr ailgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cynnwys y grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |